COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd yng Nghaerdydd am 10.00 – 11.45 ar 15 Mai 2018

Yn bresennol:

Aelodau:	William Callaway (Cadeirydd) Gareth Eyres Gareth Pierce
Archwilwyr:	Andrew Howells, PriceWaterhouseCoopers (Archwilwyr allanol) Carol Warburton, Baldwins (Archwilwyr mewnol)
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr Catherine Rees, Ysgrifennydd y Coleg Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd Suzanne Lewis, Rheolwr Gweithredu Nia Brown, Swyddog Datblygu
Yn bresennol	Dr Haydn E Edwards (Cadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr)
Ymddiheuriadau:	Peter Curran Yr Athro Iwan Davies Dr Rhodri Llwyd Morgan

Eitem	**Prif bwyntiau trafod**	**Pwyntiau Gweithredu**	**Cyfnod amser**
1. Croeso ac ymddiheuriadau	1.1 Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. 1.2 Nodwyd ymddiheuriadau, fel uchod. 1.3 Nodwyd bod Peter Curran wedi ei benodi fel aelod annibynnol ychwanegol i'r pwyllgor a'i fod wedi rhannu sylwadau e-bost i'w hadrodd yn ôl yr eitem.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Datganodd Gareth Pierce, Prif Weithredwr, Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC), ddiddordeb yn y Tystysgrif Sgiliau Iaith, a achredwyd gan CBAC. Yn ogystal datganodd ei fod â chysylltiad â thîm Sarasin (eitem 9). Nododd y bu'n rhan o drafodaethau'r cyfweliadau ond nid y penderfyniadau. 2.2 Datganodd Dr Haydn Edwards, Cadeirydd y Coleg, ei fod yn Gadeirydd Bwrdd Ymgynghorol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sy'n ariannu'r cynllun Cymraeg Gwaith. 2.3 Datganodd William Callaway, Cadeirydd y pwyllgor, ei fod yn Ysgrifennydd Prifysgol De Cymru ac yn Ysgrifennydd Cwmni Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Choleg Merthyr Tudful.		
3. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a Materion yn Codi	3.1 Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2018, fel cofnod cywir. 3.2 Adroddwyd bod y pwyntiau gweithredu a nodwyd yn y cofnodion naill ai wedi'u gwireddu neu fod yr eitem yn ymddangos ar yr agenda. 3.3 <u>Eitem 10.2 – Penodi archwilwyr allanol.</u> Adroddwyd bod y Bwrdd Cyfarwyddwyr wedi cymeradwyo penodi PriceWaterhouseCoopers fel archwilwyr allanol am dymor pellach tan fis Mawrth 2021. 3.4 <u>Eitem 10.3 – Penodi archwilwyr mewnol.</u> Adroddwyd bod cwmni Baldwins wedi cytuno i weithredu fel archwilwyr mewnol am flwyddyn ychwanegol. Nododd y Cofrestrydd ei fod wedi cysylltu ag ICAEW. Awgrymwyd y gellid cysylltu gyda Sefydliad Archwilwyr Mewnol (IIA) a nifer o gwmnïau ynghylch dewisiadau archwilio mewnol. 3.5 <u>Eitem 13 – Cronfeydd cyfyngedig.</u>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	Adroddwyd bod cyfrif penodol wedi ei agor ar gyfer cronfeydd cyfyngedig.		
4. Llythyr Grant Llywodraeth Cymru (Eitem 5)	4.1 Nodwyd Llythyr Grant Llywodraeth Cymru i'r Coleg. 4.2 Nodwyd bod y llythyr wedi cyrraedd ar ddiwedd mis Mawrth a bod nifer o gyrff eraill wedi derbyn eu Llythyr Grant ar yr un adeg. 4.3 Nodwyd bod £150,000 ychwanegol yn y gyllideb yn benodol ar gyfer prosiectau cychwynnol ym maes addysg bellach. 4.4 Nodwyd ymhellach bod arian yr ysgoloriaethau a hyfforddi athrawon yn rhan o'r brif gyllideb erbyn hyn. 4.5 Cafwyd trafodaeth ar y targedau a nodwyd yn y Llythyr Grant ac adroddwyd bod trafodaethau yn digwydd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i adnabod mesuryddion ystyrlon ar gyfer y cyfnod nesaf.		
5. Adroddiad Blynyddol yr Archwilwyr Mewnol (Eitem 6b)	5.1 Cafwyd crynodeb o adroddiad blynyddol yr Archwilwyr Mewnol ar gyfer 2017/18 gan gynnwys adroddiad cynnydd gan Carol Warburton. 5.2 Adroddwyd bod yr adroddiad yn cynnig sicrwydd rhesymol sy'n gyson â'r blynyddoedd a fu. 5.3 Adroddwyd bod adolygiad o'r grantiau pynciol wedi ei ohirio tan 2018/19. 5.4 Argymhellwyd paratoi rhestr o fesuryddion perfformiad ar gyfer y cyfarfod nesaf.	CW i gyflwyno rhestr o fesuryddion perfformiad	24 Hydref 2018
6. Rhaglen Archwilio Mewnol 2018/19 (Eitem 6a)	6.1 Cyflwynwyd crynodeb o raglen archwilio mewnol 2018/19 yr Archwilwyr Mewnol gan Carol Warburton. 6.2 Trafodwyd amserlen adolygu a mesur perfformiad. Awgrymwyd mai mater i'r uwch dîm rheoli oedd penderfynu ar gyfanswm y diwrnodau archwilio yn sgil adnoddau.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	6.3 Adroddodd y Prif Weithredwr bod y Coleg wedi cytuno gyda swyddogion Llywodraeth Cymru y byddai'r Cynllun Strategol newydd yn cael ei baratoi wedi cwblhau'r trafodaethau cychwynnol ar ymestyn cyfrifoldebau'r Coleg i'r sector ôl-16. 6.4 Derbyniwyd y rhaglen archwilio mewnol.		
7. Rheoliad diogelu data cyffredinol (GDPR)	7.1 Bydd rheoliad diogelu data cyffredinol (GDPR) yn dod i rym ar 25 Mai 2018. Adroddwyd bod cyfran o amser archwilio Gwasanaethau Gwybodaeth wedi'i ymroi i'r rheoliad diogelu data cyffredinol. 7.2 Adroddwyd yn dilyn proses caffael y penodwyd Darwin Gray i gydweithio â Rhys Williams, Rheolwr Gwasanaethau Gwybodaeth, i baratoi polisïau a dogfennau GDPR. 7.3 Adroddwyd y bu cyfarfod diweddaru gyda'r archwilwyr mewnol ar 11 Mai 2018 a bod adroddiad ar y gweill. Cytunwyd i gylchredeg yr adroddiad i'r pwyllgor. 7.4 Trafodwyd nifer o agweddau gan gynnwys annibyniaeth y Swyddog Diogelu Data a thrafodwyd yr angen am ganllawiau clir am hyn.	Adroddiad AM ar GDPR i'r aelodau GDPR i'w gynnwys yn adroddiad y PW i'r BC	Haf 2018 20 Mehefin 2018
8. Cynllun Archwilio Allanol 2018/19 (Eitem 7)	8.1 Cyflwynwyd cynllun archwilio allanol 2018/19 gan Andrew Howells. 8.2 Eglurwyd proses yr archwiliad, cyfrifoldebau a risgiau, a'r amserlen. 8.3 Derbyniwyd y cynllun archwilio allanol.		
9. Y Gofrestr Risg (Eitem 8)	9.1 Rhoddwyd cyflwyniad gan y Rheolwr Gweithredu ar y Gofrestr Risg. Darparwyd adroddiad ar y diweddariadau i'r Gofrestr Risg ers y cyfarfod diwethaf. 9.2 Argymhellwyd bod Cadeirydd y pwyllgor a'r Cofrestrydd yn trafod gyda Peter Curran dyheadau risg y Coleg a'r	WC, DT a PC i gyfarfod	Haf 2018

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	fframwaith i'w gynnwys yn y polisi rheoli risg. Yn hyn o beth argymhellwyd gochel cymesuredd gan ystyried adnoddau'r Coleg. 9.3 Yn dilyn trafodaeth a rhai newidiadau derbyniwyd y diweddariadau i'r gofrestr i'w gyflwyno i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr i'w ystyried yn llawn.	Cofrestr Risg i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr	20 Mehefin 2018
10. Penodi Rheolwyr Buddsoddiadau (Eitem 9)	10.1 Cafwyd diweddariad gan Cadeirydd y pwyllgor ar benodi rheolwyr buddsoddiadau. 10.2 Ymunodd Cadeirydd y pwyllgor, y Cofrestrydd, Peter Curran a Gareth Pierce (a ddatganodd ddiddordeb, gweler eitem 2) yn y cyfweliadau ar 16 Ebrill 2018. Adlewyrchai cynnig Sarasin awydd y Coleg i sicrhau elw addas heb risg sylweddol. 10.3 Yn dilyn trafodaeth lawn ar agweddau moesol buddsoddi cytunwyd i argymell i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr penodi cwmni Sarasin. 10.4 O'i dderbyn trefnir bod cwmni Sarasin yn paratoi polisi dan arweiniad yr aelodau uchod i'w adrodd yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor ac yn flynyddol.	Argymell i'r BC penodi Sarasin Polisi i'w baratoi a'i adolygu'n flynyddol	20 Mehefin 2018 24 Hydref 2018 Yn flynyddol
11. Cyfrifon Rheoli'r Coleg ar gyfer Chwarter 3 a 4 2017/18 (Eitemau 10a/b)	11.1 Cafwyd eglurhad ar Gyfrifon Rheoli'r Coleg ar gyfer chwarter 3 a 4 2017/18 gan y Cofrestrydd. 11.2 Nodwyd bod ambell gyllideb wedi gorwario ac eraill wedi tanwario. Eglurwyd yn ôl rheoliadau FRS102 bod angen cyfrifo tâl gwyliau yn y fantolen a bod hyn yn effeithio ar incwm a gwariant y flwyddyn. 11.3 Derbyniwyd y cyfrifon.		
12. Rhestr ffioedd i aelodau pwyllgorau a phaneli (Eitem 11)	12.1 Derbyniwyd rhestr ffioedd a gynigir gan y Coleg ar gyfer darparu cydnabyddiaeth i aelodau allanol o bwyllgorau'r Coleg, aelodau allanol o baneli dyfarnu a phaneli adolygu, darparwyr rhaglenni hyfforddiant a rhai		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	swyddogaethau penodol eraill. 12.2 Nodwyd bod y rhestr wedi'i hadolygu ers y llynedd i adlewyrchu adolygiad Llywodraethiant y Coleg a chysoni a gwahaniaethu taliadau rhwng pwyllgorau statudol sydd â mwy o gyfrifoldebau paratoi na phwyllgorau eraill. 12.3 Gan fod y Pwyllgor Archwilio a Risg yn rhan o'r adolygiad cyflwynir y rhestr ffioedd at gymeradwyaeth y Bwrdd Cyfarwyddwyr.	Rhestr ffioedd ar gyfer cymeradwyaeth y BC	20 Mehefin 2018
13. Cyfraddau teithio a chynhaliaeth (Eitem 12)	13.1 Derbyniwyd ffurflen costau teithio a chynhaliaeth y Coleg. 13.2 Adroddwyd bod cyfraddau Cyllid a Thollau EM (HMRC) wedi newid ac adolygir costau teithio a chynhaliaeth y Coleg yn unol â'r cyngor.		
14. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf	14.1 Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf yng Nghaerdydd: • 24 Hydref 2018, 10.00-12.30 • 22 Chwefror 2019, 10.00-12.30 • 22 Mai 2018, 10.00-12.30 15.2 Diolchwyd i Osian Rhys am gyfieithu ar y pryd.		